# Cofnodion Cyfarfod 4/1/2024

**Presennol:** Y Maer Eifion Roberts, Y Cyng Tony Parry, Dilys Evans, Rhys Evans, Moira Mai (ar Zoom), Jacqueline Allen (ar Zoom), Sion McGuiness, Eric Williams, Clare Mackintosh a Huw Antur (*Clerc*).

**Hefyd yn bresennol:** Y Cyng. Dilwyn Morgan (Aelod lleol Cyngor Gwynedd).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. John C Williams, Fiona Hopkins ac Eluned Jones.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer, Eifion Roberts. Cyfeiriodd at brofedigaeth ddiweddar Mr Trevor Jones o golli ei briod, Mr Jones wedi bod yn cydweithio'n agos hefo'r Cyngor Tref ar hyd y blynyddoedd fel ysgrifennydd i Ganolfan Bro Tegid.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Ar ôl nodi fod y Cyng Tony Parry wedi ei anrhydeddu gan Byw'n Iach Gwynedd yn Seremoni Wobrwyo Chwaraeon Gwynedd am ei wasanaeth i chwaraeon yng Ngwynedd fe gadarnhawyd yn unfrydol gywirdeb cofnodion cyfarfod 14/12/23.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

   i. Rheolau Sefydlog: Yn dilyn cadarnhad fod modd cyfieithu cofnodion y cyngor yn rhwydd fe gytunwyd yn unfrydol i fabwysiadau'r Rheolau Sefydlog newydd.
   ii. Cyfyngiadau parcio Maes y Bronnydd: Derbyniwyd gwybodaeth y bydd y broses gyfreithiol o osod cyfyngiadau parcio ger Maes y Bronnydd yn cychwyn yn fuan.
   iii. Cynllun Creu Lle: Cafwyd trafodaeth ar Briff Ymgynghorwyr ar gyfer paratoi Cynllun Creu lle ar gyfer y Bala. Yn dilyn rhai ychwanegiadau at y briff fe gytunwyd i'w anfon ymlaen i Gyngor Gwynedd er mwyn symud ymlaen hefo'r broses.
   iv. Cynllun Celf Canol Trefi: Nodwyd fod angen ail drefnu'r cyfarfod i drafod y mater hwn.
   v. Stondin Beiciau: Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan, ac fe nodwyd mai'r lleoliad mwyaf addas fyddai'r ardal o gwmpas cofeb Tom Ellis, ac mai'r camau nesaf fydd sicrhau caniatâd i'w osod ac yna cadarnhau cost y datblygiad etc.

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Dilwyn Morgan, pryd y nodwyd fod y palmant o flaen y Llew Gwyn wedi cael ei atgyweirio, a bod archwiliad o gyflwr

palmentydd y dref ar y gweill. Cadarnhaodd hefyd ei fod wedi ysgrifennu at weithredwyr bysiau cyhoeddus i dynnu sylw at ddiffygion amserlenni bysiau T3 a T3C.

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Cafwyd trafodaeth ar Gynllun Anrhydeddau'r Bala fel rhan o ddathliad Y Bala – Yma o Hyd. Cytunwyd y dylai'r anrhydeddau fod i drigolion Penllyn, ac fe gytunwyd ar y categorïau canlynol:

**i)** Gwirfoddolwr / Cymwynaswr y flwyddyn.
**ii)** Person ifanc y flwyddyn.
**iii)** Mudiad / Clwb y flwyddyn.
**iv)** Busnes / Siop y flwyddyn.
**v)** Dysgwr Cymraeg y flwyddyn.
**vi)** Person chwaraeon y flwyddyn.
**vii)** Amgylcheddwr y flwyddyn.

Nodwyd y bydd angen sefydlu proses, canllawiau, meini prawf a rheolau ar gyfer yr anrhydeddau. Awgrymwyd gwobr ar ffurf tarian neu blât yn hytrach na gwobr ariannol.

Cafwyd trafodaeth hefyd ar y syniad o blannu planhigion bwytadwy neu berlysiau yn y dref fel rhan o'r dathliadau. Trafodwyd safleoedd posibl, ee Ysgol Godre'r Berwyn, tir y Clwb Criced, ardal Bryn y Groes neu'r Ardd Gymunedol. Nodwyd fod angen caniatâd i blannu'r planhigion, a gwneud trefniadau i ofalu am y planhigion ar ôl eu plannu. Trafodwyd hefyd y syniad o drefnu Cinio Swyddogol i gyflwyno'r anrhydeddau uchod ac i gloi'r dathliadau 700 mlynedd.

7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau:

i. Is-bwyllgor y Nadolig: Adroddwyd fod y clerc wedi cysylltu hefo cynghorau Dolgellau a Rhuthun, a bod Cyngor Tref Dolgellau wedi ymateb a nodi y byddant yn anfon gwybodaeth am drefniadau Goleuadau Nadolig y dref.
ii. Is-bwyllgor gofalu am a chynnal asedau: Nodwyd fod trefniadau ar y gweill i ail osod baner ar Domen y Bala ac i atgyweirio mainc ger cofeb Tom Ellis.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

i) Un Llais Cymru: Cafwyd adroddiad gan y Maer, Eifion Roberts o gyfarfod o Un Llais Cymru Meirionnydd ar Ionawr 3ydd. Adroddwyd fod angen hyrwyddo'r ffaith fod WIFI am ddim yn y dref, sustem o'r enw Patrwm sy'n medru casglu data allweddol am brysurdeb y dref, a sefydlu patrwm siopa ymwelwyr yn y dref. Adroddodd fod byrddau gwybodaeth digidol yn dod yn fwyfwy poblogaidd mewn gwahanol drefi, ac y gellid efelychu hyn yn y Bala. Rhannodd wybodaeth am gynllun hyfforddiant Un Llais Cymru, a nodi pwysigrwydd cofnodi pwy sy'n mynychu cyfarfod o'r cyngor ar Zoom.

ii) Cwmni Pum Plwy Penllyn: Ni fu cyfarfod ers y cyfarfod diweddaraf o'r Cyngor Tref.

*8.* **Materion Cynllunio**: Nid oedd materion cynllunio i'w hystyried.

**9. Materion Cyllid:**

**i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £21,482.06 yn y cyfri cyfredol, £16,401 yn y cyfri cadw a £863 yng Nghronfa'r Maer. Nodwyd fod £5,000 wedi ei glustnodi tuag at gostau dathliadau Y Bala – Yma o Hyd.

**ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, anfoneb Cwmni Pum Plwy Penllyn, taliadau dyledus HMRC a chyflog y Clerc. Cytunwyd i drafod ymhellach gyda Archwilio Cymru cyn talu'r anfoneb am gostau archwiliad ariannol 2021/2022.

**iii.** Cytunwyd i drafod ceisiadau ariannol o'r newydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

**10. Gohebiaeth:**

i. Rhaglen Hyfforddiant Un Llais Cymru – derbyniwyd gwybodaeth am sesiynau hyfforddiant.

ii. Trafnidiaeth Gymunedol: Derbyniwyd neges gan y Community Transport Association yn cynnig cymorth i ddatblygu trafnidiaeth gymunedol yn yr ardal. Cytunwyd i gydweithio hefo Cwmni Pum Plwy Penllyn i ddatblygu'r syniadau.

11. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Derbyniwyd gwybodaeth gan y Cyng Clare Mackintosh am Ddiwrnod Atal Trosedd fydd yn cael ei gynnal ar Ionawr 27ain. Cytunodd y cyng Eifion Roberts, Dilys Evans, Clare Mackintosh a Dilwyn Morgan i gynrychioli'r cyngor yn y cyfarfod.

12. Daeth y cyfarfod i ben am 8.20pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau Chwefror 1af 2024.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)